

Tyfu Lafant

ERTHYGL TECHNEGOL

Cyflwyniad

Gall lafant fod yn gnwd newydd ac anarferol y gellir ei integreiddio i ystod o systemau tyfu presennol. Mae lafant yn cyplu'n dda gyda chynhyrchion eraill fel mêl os oes gennych chi gychod gwenyn ar y safle. Gall lafant sych gael ei werthu fel amrywiaeth o gynnyrch fel blodau sych wedi'u paratoi'n dusw, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gymysg â blodau sych eraill fel ysgall a Gypsophila. Ar gyfer safleoedd 'casglu eich hun', gall lafant fod yn ychwanegiad apelgar at safle'r fferm. Gall planhigfeydd lafant mawr gael eu hurio hyd yn oed fel cefnlen i luniau priodas! O safbwynt tyfu, gall lafant gael ei drin yn hawdd heb lawer o broblemau plâu a chlefydau yn yr hirdymor. Ar ôl ei blannu, gall lafant bara am 6 - 10 mlynedd gan ddibynnu ar y pridd, yr amrywiaeth ac amodau tywydd cyn bydd angen ei ailblannu.

Pridd a Hinsawdd

Mae lafant yn gweddu orau i ardaloedd o law isel mewn priddoedd calchaid, caregog sydd wedi'i ddraenio'n dda. Lôm ysgafn dros sialc yw'r mwyaf addas, er y gellir defnyddio lôm tywodlyd os yw wedi'i galchu. Mae pridd sy'n draenio'n rhwydd yn hollbwysig, felly mae priddoedd trwm yn anaddas oherwydd y risg uwch o glefydau. Mae angen ardaloedd di-rew a diogelwch rhag gwyntoedd cryfion hefyd.

Mae lafant yn addas i aeafau mwyn Cymru, ond gall lefel uchel o law a gwyntoedd cryfion fod yn her. Mae'n well plannu lafant mewn caeau cysgodol, ond os yw'r safle'n agored i'r elfennau, dylech ystyried cysgodion rhag y gwynt i warchod y cnwd.

Gall lefelau glaw fod yn uwch yng Nghymru na'r ardaloedd lle tyfir lafant fel arfer, ond oherwydd bod y ffenest gynaeafu rhwng Gorffennaf ac Awst, mae'n annhebygol o fod yn her. pH o 7 sydd orau, ond mae priddoedd â pH 5.8 - 8.3 wedi'u defnyddio i dyfu lafant. Dylai calchu confensiynol ag amaethu arferol, cyn creu gwelyau uchel fod yn ddigonol. Bydd angen monitro'r pH bob dwy flynedd, a lle gwelir gostyngiad cyflym yn y pH, cynghorir gwasgaru calch gan na fydd tyfu yn hawdd unwaith y bydd y cnwd wedi ymsefydlu.

Trin

Gellir creu gwelyau ar ôl eu trin i uchder o 30 – 40cm gyda thop gwastad. Ar ôl eu ffurfio, dylai stripiau Mypex gael eu gosod dros y gwelyau i reoli chwyn, gyda phibell ddyfrhau oddi tano. Ar gyfer ardaloedd mawr gellir ffurfio'r gwelyau gyda pheiriant cribo wedi'i dynnu gan dractor gyda bwrdd lefelu, ac yna gorchudd Mypex gyda pheiriant gosod polythen os yw ar gael. Wrth baratoi gwelyau, gadewch dalar go lew (tua 5 m) os ydych chi'n defnyddio peiriannau.

Mae'n well plannu planhigion lafant â llaw mewn twll siâp croes yn y Mypex – cadwch y rhain mor fach â phosib er mwyn lleihau'r ffenest i chwyn ymsefydlu. Gall clipiau Mypex gael eu defnyddio hefyd i sefydlogi'r gorchudd, ond os caiff ei balu'n dda, ni fydd angen hynny.

Mae'n annhebygol y bydd angen dyfrhau sylweddol ar y cnwd, ond er mwyn cynnal tyfiant, mae'n well gwneud hyn rhag ofn y ceir tywydd poeth a sych. Gellir defnyddio dŵr sydd wedi'i dynnu o ffynnon, neu o danc storio i ddyfrhau, a gallwch hefyd ystyried defnyddio dyfais fwydo fewnol fel Mazai neu Dosatron. Gellir rhoi porthiant hefyd drwy wrteithiad o wrtaith sydd wedi'i ymgorffori yn y gwelyau wrth i chi eu paratoi. Dim ond ar ôl ymsefydlu y bydd planhigion yn cymryd porthiant sylweddol, lle argymhellir cyfraddau nitrogen o 80 – 100 kg/ha a ffosfforws o 33 kg/ha. Bydd gormod o fwydo yn hybu twf llystyfiant ac yn lleihau'r cnwd.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Gofodi	Gellir gosod corblanhigion/planhigion canolig (e.e Lafant Saesnig <i>Lavandula angustifolia</i> e.e. Hidcote blue neu Munstead) 30-40cm ar wahân. Ar gyfer cyltifarau mwy/talach fel croesiadau <i>Lavandula x intermedia</i> fel Grosso, dylid cynyddu hyn i 60cm.
Dyfrio	Ar ôl sefydlu, dim ond mewn tywydd poeth/sych iawn y bydd angen dyfrio, gan fod lafant yn gyffredinol yn gallu gwrthsefyll sychder. Bydd rhywfaint o ddyfrio ar ôl y cynhaeaf yn helpu aildyfiant.
Tocio	Ar ôl sefydlu, gall mathau gwydn o lafant gael eu torri'n ôl i bren hŷn ym mis Awst fel bod ganddyn nhw ddigon o amser i aildyfu cyn dechrau'r tywydd gwlyb, oerach. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys tynnu pennau'r blodau a'r coesau sydd wedi gwywo a thynhau siâp y llwyni yn ôl i dwf presennol y tymor.

Mathau o Lafant

Y prif fathau masnachol yw Grosso, Provence, Gros Blue a Dutch Mill. Mae croesiadau *Lavandula x intermedia* (a elwir fel arfer yn Lavandin) yn cael eu hargymell i dynnu olew a blodau ffres a sych – maen nhw'n blodeuo'n helaeth, gan roi pennau mawr â mwy o gynnwys olew na mathau *L. angustifolia*. Mae'r mathau hyn yn wydn iawn, gan flodeuo rhwng mis Gorffennaf a diwedd mis Awst. Gall planhigion hefyd gyrraedd 60cm, sy'n olygfa drawiadol i ymwelwyr. Serch hynny, caiff mathau o gorblanhigion *L. angustifolia* fel Hidcote Blue, Maillette a Munstead eu hargymell ar gyfer blodau sych, gan eu bod yn gallu cadw eu blodau am gyfnod hir ar ôl cael ei sychu. Mae mathau *L. angustifolia* hefyd yn cynhyrchu olew o ansawdd gwell ar gyfer persawr a defnydd cosmetig. Mae planhigion mewn plygiau sy'n cael eu tyfu o hadau yn debygol o fod ar gael drwy feithrinfeydd blodau addurnol.



Lafant a blannwyd mewn gwelyau codi yn tyfu trwy mypex.

Cynaeafu

Gall lafant gael ei gynaeafu rhwng mis Gorffennaf a mis Awst. Os cânt eu torri i ddistyllu olew, rhaid i'r holl flodau fod ar agor, gan amlaf wythnos yn hwyrach nag y byddai blodau'n cael eu torri ar gyfer y farchnad ffres neu sych.

Mae'n well torri blodau pan fydd y planhigion yn sych, a bydd haul cryf yn gwella cynnwys yr olew. Os ydych chi'n bwriadu tyfu i gynhyrchu olew, mae'n rhaid i chi ystyried argaeledd distyllwr yn ofalus, neu ymchwilio a buddsoddi yn eichcyfarpar distyllu eich hun. Mae sut mae'r cnwd yn cael ei ddistyllu yn debygol o gael effaith sylweddol ar sut rydych chi'n cynaeafu ac yn trin eich cnwd. Mae cnwd olew o 35 - 45 kg olew/ha yn bosib mewn blwyddyn dda, ond mae 11 kg olew/ha yn debygol o fod yn fwy nodweddiadol.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Dylid torri lafant sy'n cael ei dyfu ar gyfer blodau sych ychydig cyn i'r blodau gyrraedd eu llawn dwf. Dylai'r rhain gael eu gosod ar hambyrddau agored a'u sychu y tu allan yn yr haul (wedi'u gorchuddio yn y nos) neu mewn ystafell sych sydd wedi'i hawyru'n dda.

O ran cynaeafu, bydd peiriannau sydd naill ai'n pontio'r gwely ac yn torri o'i flaen ei hun, neu sydd wedi'i osod ar un ochr ac yn torri'r rhes wrth ymyl y tractor, yn ddefnyddiol. Mae ystod o beiriannau pwrpasol ar gael; mae'r rhai sy'n debyg i'r rheiny sy'n cael eu defnyddio i gynaeafu te yn arbennig o addas. Dylid defnyddio lled olwynion tractor (e.e. gwely 1m o led) i gynllunio bylchau yn y gwelyau i helpu'r cynaeafu. Serch hynny, yn ymarferol gallai ardaloedd llai hyd at 2 erw gael eu torri â llaw.



Rheoli Chwyn, Plâu a Chlefydau

Efallai y bydd rhywfaint o wywo i'w weld 3-4 blynedd ar ôl plannu – yn gyffredinol, nid yw hyn yn benodol, a gall fod oherwydd amryw o resymau. Gwelir y problemau gwaethaf mewn twneli, yn enwedig os ydyn nhw'n cael eu cadw'n wlyb. Mae pwysau plâu yn isel ar y cyfan, a gellir rheoli'r rhan fwyaf o broblemau clefydau yn ffermwrol – mae lafant yn gnwd delfrydol i'w dyfu'n organig.

Mae clefydau yn annhebygol o fod yn broblem sylweddol gyda lafant sy'n cael ei dyfu mewn caeau; fodd bynnag, mae rhai afiechydon allweddol i gadw llygad amdanynt:

- Gall pydredd gwreiddiau fel *Armillaria*, *Fusarium*, *Pythium* a *Phytophthora* fod yn risg, yn enwedig mewn caeau gwlyb.
- Clwyf smotiau Septoria a gwyw Verticillium.
- Gall *Phoma* fod yn amlwg o fis Mai ymlaen wrth i egin ifanc ddod yn glorotig a gwywo.

Dylid codi a dinistrio planhigion heintiedig yn gyflym, ochr yn ochr â phlanhigion cyfagos i rwystro'r ymlediad.

Mae pryfed hefyd yn annhebygol o fod yn broblem mewn cnydau sefydledig. Gall gwiddon coch dau smotyn, nematodau dail a blagur a sboncyn y dail fod yn broblem mewn cnydau sydd wedi'u plannu'n ffres, ond ni ddylai fod yn broblem ar ôl iddynt ymsefydlu.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO





Y brif her ar gyfer tyfu fydd rheoli chwyn ar blanhigion lluosflwydd fel marchwellt, ysgall y maes a dail tafol. Bydd gorchuddion Mypex yn cadw cyfran fawr o'r rhain allan o'r cae ar ôl eu gosod. Os yw'r gwelyau wedi'u ffurfio ymhell cyn eu plannu a heb eu tyllu na'u torri, bydd chwyn yn egino ac yn marw o dan y Mypex, felly gall fod yn well gorchuddio'r ardal gyfan lle bo modd. Ar ôl plannu, bydd angen chwynnu â hof, ac mae'n well gwneud hyn yn gynnar ac yn aml i atal chwyn rhag ymsefydlu. Gall dail tafol, danadl poethion, ysgall y maes a marchwellt ymledu'n gyflym o hadau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu unrhyw chwyn cyn y gallan nhw osod hadau.

Bydd rheoli chwyn mewn llwybrau hefyd yn bwysig. Gellid hau llwybrau gyda chymysgedd o laswellt tebyg i berllan, a fydd yn helpu i sychu'r pridd, ond bydd angen torri gwair yn rheolaidd i'w gynnal. Gellir defnyddio naddion pren a rhisgl fel dewis arall rhatach.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion y label i'w defnyddio ar lafant ond fe'u caniateir trwy Estyniad Awdurdodi ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Tymor Hir Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)' Yn yr achosion hyn, mae defnyddio'r plaladdwr yn cael ei wneud yn ôl risg y defnyddiwr. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwr mewn lafant yn gywir adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwr. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd â chymwysterau BASIS.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO





Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

